CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 10. RHIF 12.] RHAGFYR, 1910. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

O FON I FYNWY. Sarnicol.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.
Parch. Joseph Wood.

ADGOFION AM DDIWYGIAD 1904-5 YN NHRECYNON.
Parcwyson.

Y PRIFATHRO WALTER J. EVANS, M.A.
Ieuan Mynyw.

PETHAU NEWYDD A HEN.

LLYFRGELL Y PREGETHWR.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

—'Y GENINEN'—

AM Y FLWYDDYN NESAF.

Yn mhlith nifer fawr o gynyrchion eraill o eiddo lluaws o'r AWDURON CYMREIG ENWOCAF, ar bynciau dyddorol a phwysig, yn dwyn perthynas â "Chymru, Cymro, a Chymraeg," bydd UNIG GYLCHGRAWN CENEDLAETHOL Y CYMRY, am y flwyddyn nesaf, yn cynwys Traethawd ar y pwnc hwn—"PAHAM YR WYF YN UNDODWR?" gan y Parch. R. JENKIN JONES, M.A., Aberdar. Hefyd, bydd yr un gwr Parchedig a galluog yn ysgrifenu cyfres o erthyglau ar y testyn dyddorol—"HUNANGOFIANT AC ADGOFION."

Bydd y Rhifynau nesaf yn cynwys, hefyd, yn mysg eiddo lluaws eraill o Lenyddion Penaf Cymru, gynyrchion gan amryw o Enwogion Undodaidd, megys y Parchn. W. James, B.A., Y.H.; E. Ceredig Jones, M.A.; E. Gwilym Evans, B.A.; T. Arthur Thomas; D. Evans, Cribyn, &c.

Pris 1s. y Chwarter; drwy'r Llythyrdy 1s.1½c. Y telerau arferol i Ddosbarthwyr.

W. Gwenlyn Evans, Swyddfa'r 'Geninen,' Caernarfon.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad. . . . .

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR ✪ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1910. [CYF. X. RHIF 12.

O FON I FYNWY.

YR wyf wedi treulio pymtheg mlynedd o'm hoes yn ceisio arwain meddwl ieuenctyd Cymru o dywyllwch i oleuni. Da y gwn mai o dywyllwch dwfn i dywyllwch dyfnach yr arweiniais hwy yn fynych. Ofnwyf fy mod wedi dysgu rhai i garu'r tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Cysur gwael i mi fy hun yw dwyn i gof fod canoedd o athrawon ereill yn euog o'r un trosedd. Esgusawd yn unig yw dweyd ei bod yn anmhosibl creu cariad at addysg yn nghalonau rhai plant. Eto gwyr pob athraw mor anodd yw creu dyddordeb at bethau uwch mewn ambell blentyn.

Ychydig o leygwyr sydd yn sylweddoli maint y peirianwaith sydd wrthi heddyw yn gwasanaethu i gyfranu addysg i blant Cymru. Y mae addysg yn yr awyr yn mhob man. Y mae pob rhieni yn ceisio uwchlaw dim, rhoddi "addysg dda" i'w plant. Y mae'r ysgolion elfenol wedi lefeinio'r wlad am ddeugain mlynedd; y mae o leiaf un o'n colegau cenedlaethol yn agos gyn hyned a hwy; ac wele'r ysgolion canolraddol wedi bod yn gwneud eu gwaith am dros bymtheg mlynedd. Ac y mae dylanwad y sefydliadau hyn ar y genedl wedi bod yn aruthrol. Y mae addysg wedi codi Cymru yn fwy i sylw y byd nag y bu erioed o'r blaen. Erbyn hyn y mae ei phlant yn llanw safleoedd pwysig yn ysgolion, yn ngholegau, ac yn mhwlpudau Cymru a Lloegr—a rhai gwledydd ereill. Nid yw ein haddysg wedi rhoddi i ni gymaint enw yn y byd masnachol; hyd yn hyn y mae ein cwrs ysgolorawl wedi bod yn rhy athrofaol, a rhy anymarferol.

Hawdd beirniadu unrhyw gyfundrefn, ac nid yw addysg Cymru uwchlaw beirniadaeth. Gadewch i ni sylwi ar rai o ddiffygion ein cyfundrefn yn ngoleuni egwyddorion sylfaenol addysg.

Yn ystyr eangaf y gair y mae dyn yn derbyn addysg drwy ei fywyd. "Yr ydym yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd" sydd ddywediad diarebol yn ein mysg. Ond nid addysg o'r fath hon sydd a fynom a hi; eithr y gyfundrefn a ddyfeisiwyd, neu a ddyfeisir gan y bobl

neu'r genedl i gyfranu addysg drefnus a pharhaol i'w hieuenctyd. Yn awr y cwestiwn mawr yw, beth yw amcan addysg? Dywed Herbert Spencer mai

"PAROTOAD AR GYFER BYWYD CYFAN"

(the preparation for complete living) ydyw, ac yn ei ddull clir a phwysleisiol ei hun daw i'r casgliad mai y testynau hyny sydd fwyaf defnyddiol at bwrpas hunan-ddiffyniad ddylai gael sylw blaenaf plant ein hysgolion; a'r mwyaf pwysig o'r testunau hyny yw astudiaeth o'r corff dynol a deddfau iechyd! Gwyddai Herbert Spencer lawer, ond nid oedd erioed wedi ymdrin llawer a phlant, onide buan y deuai i wybod nad yw *physiology* yn bwnc sydd yn meddu dyddordeb mawr i blentyn chwech mlwydd oed! Er hyny deffiniad da o addysg yw "parotoad ar gyfer bywyd cyfan"; pe baem yn gallu cytuno beth a feddylir wrth gyfanrwydd bywyd. Ai galluogi'r dyn dyfodol i gasglu da lawer yw dyben addysg? Etyb pawb yn unfrydol a phenodol, Nage! Ai dysgu crefydd a defosiwn yw prif amcan ein hysgolion? Nage! Yn ddiamheu bydd hyn yn rhan bwysig o waith yr athraw pan y ceir dynion i gytuno beth yw gwir grefydd a gwir ddefosiwn. Hyd hyny, amlwg yw y dylid cau pob athrawiaeth allan o'r ysgol, a dysgu y Beibl fel llenyddiaeth; canys cytuna pawb yn nghylch gwerth llenyddol y gyfrol sanctaidd.

Ai cyfranu gwybodaeth yw amcan cyfundrefn addysg? Hyny yw ai'r dyn gwybodus yw delfryd yr ysgolfeistr? Gwir yw mai "Nid byd byd heb wybodaeth," a "Nerth gwlad yw ei gwybodau"; ond gwyddom oll y gall dyn fod yn ddyn gwybodus heb fod o gwbl yn berffaith yn ol ein safon gyffredin o berffeithrwydd. Nid mawredd golud na mawredd gwybodaeth chwaith ddylai fod yn nod neb dyn, yn ol syniadau goreu ein dydd—ond *mawredd cymeriad;* arucheledd moesol—dyna'r nod y dylai oll gyrchu ati. Y gwr gonest, cyfiawn, cryf, gyda chydymdeimlad calon, ac eangder meddwl, dyna ddelfryd cymeriad ein gwlad; a delfryd pob gwlad wareiddiedig drwy'r byd. Wele i ni amcan uchaf addysg ein hysgolion ynte—

MAGU CYMERIAD.

Y mae'n amcan uchel, mor uchel nes yr ydym ni'r athrawon yn fynych yn colli golwg arno; mor ddelfrydol fel y mae lleygwyr ein gwlad yn methu ei ddeall, ac yn tueddu i edrych arnom ni'r athrawon fel pobl yn byw mewn byd ansylweddol ac anymarferol ar benau ein hunain.

Creu cymeriad! Y mae'n waith anodd; haws dysgu holl osodiadau Euclid i blentyn na'i ddysgu i rodio ffordd union dyledswydd. Ei ddysgu i ufuddbau heb ei waseiddio; i fod yn deimladwy heb fod yn wan; i fod yn gryf heb dreisio; i fod yn hael heb fyned i ormodedd; i fod o dan reolau cymedroldeb yn mhob dim heb fyned yn gaeth i reol; i fod yn barod i ddysgu y goreu yn mhob man heb aberthu ei hunaniaeth; i garu dynoliaeth heb golli ei serch at gartref; i fod yn

berffaith onest a chyfiawn tuag at bawb, heb anghofio ei ddyledswydd ato ei hun a'i eiddo; i feddu dewrder y llew ac addfwynder yr oen; i fod yn meddu gwybodaeth heb amharu ei ddiniweidrwydd—ac yn y blaen yn ddiderfyn.

Y cwestiwn naturiol sydd yn cynyg ei hun erbyn hyn ydyw, a oes gwell cymeriadau yn cael eu cynyrchu yn Nghymru heddyw nag a geid haner can mlynedd yn ol? A ydym ni, blant y goleuni ysgolheigiawl, yn well cymeriadau na'n teidiau? Os nag ydym, y mae'r holl gyfundrefn yn fethiant. Nid oes ddadl nad yw ein haddysg wedi ein gosod ar well tir i gystadlu â Germani; ond os nad yw bywyd yn gynwysedig mewn dim uwch na chystadleuaeth a Germani, gwell bod hebddo; a pho gyntaf y delo'r Ellmyn yma i'n traflyncu goreu i gyd i ni, bawb o honom. Ydym, yn ddiamheu, yr ydym wedi hogi ein galluoedd meddyliol, ac yn gallu ymladd yn lew a'n gelynion tramor; ond beth am ein delfryd? Gwaith anodd yw penderfynu faint o gynydd moesol ydym wedi wneud er dyfodiad addysg i'n gwlad; nis gellir ond rhoddi ein hopiniwn ar y mater. Yr wyf eisoes wedi cymharu'r hen ffermwraig yn y wlad a gwraig ddeallus y cyfreithiwr yn y dref; y naill yn ei beudy a'r llall yn ei pharlwr; Mari a'i Beibl a Madam a'i *latest novel;* ac yr wyf yn methu gweled gwir flaenoriaeth Madam o'r dref ar hen wraig yn y wlad. A ydyw'r masnachwr yn ei fodur yn wirioneddol uwch ei gymeriad na Deio'r Torwr Cerig? Buaswn yn anghyson a mi fy hun pe dwedaswn ei fod. Ac eto credaf fod yna gamsynied yn rhywle. Nid yw yn bosibl fod addysg wedi bod yn gymaint methiant. Credaf fy mod yn abl i roddi fy llaw ar allwedd y sefyllfa. Yr wyf yn credu fod masnachwr y dyddiau hyn yn fwy gonest a chywir na'r masnachwr haner canrif yn ol; y mae ganddo ei lyfrgell a'i oriau hamddenol; ac y mae diwylliant wedi rhoddi mwy o hunan-barch iddo nag a feddai gynt; nid yw yn amcanu at olud yn gymaint er mwyn pleser isel ac er mwyn buddianau uwchaf bywyd; mewn gair mae yn well cymeriad nag oedd ei dad, a'i ddelfryd yn uwch. Bai mawr Deio yw culni; ac y mae ei anwybodaeth yn ei arwain i dori deddfau lawer; nid yw bob amser yn gymedrol; a thuedda ar brydiau i fod yn wasaidd. Y mae ei grefydd yn rhy aml yn ei ddysgu i geisio achub ei enaid ei hun ar draul eneidiau pobl eraill; ac y mae'r garn gerrig yn ganolbwynt y cread iddo; anodd ei berswadio fod bydoedd yn bodoli hwnt i fynyddoedd Sir Gaer. Ond credaf fod Deio'r Torwr Cerrig, er mor ychydig y mae wedi fod dan ddylanwad addysg, yn well a chryfach cymeriad na'r torwr cerrig haner can' mlynedd yn ol.

Er hyn oll, rhaid cyfaddef mai ein siomi gawn pan yn ceisio mesur dylanwad addysg â llinyn cymeriad. Nid wyf yn meddwl y buaswn lawer o'n lle pe yn haeru fod gwybodaeth wedi rhoddi cant o gamau am bob un i gymeriad. Ac eto dywed Matthew Arnold, un o brif *Educationalists* ei oes, fod

YMDDYGIAD YN DRI CHWARTER BYWYD

(*conduct is three fourths of life*). Ac wele ein hysgolion yn gosod cymaint pwys ar y chwarter mwyaf dibwys o'n bywyd!

Pwy sydd i'w feio? Meiddiaf ddweyd mai ar yr ysgolfeistr y disgyn y gyfran leiaf o'r bai. Fel rheol gwyr ei ddyledswydd, a glyn wrthi yn onest. Y mae ganddo ei ddelfryd, a cheidw hi o flaen ei lygad yn barhaus. Paham ynte y mae'r ysgol yn cael gyn lleied o effaith ar gymeriad, i'w gymharu a'i heffaith mewn dysg a medr? Credaf fod y rheswm am y ffaith hon yn eglur, pan gymharer gwybodaeth ac ymddygiad. Y mae'r plentyn yn yr ysgol yn dysgu rhifyddeg, dyweder. Wedi myned allan o'r ysgol nid oes a fyno fawr a'r wyddor hono; ac os bydd yn ei ddefnyddio, rhaid dilyn ei rheolau yn gywir; nid oes ond *right* neu *wrong* yn bod. Ond gynted ag yr êl y plentyn allan o'r ysgol y mae mewn awyrgylch arall; mae'r deddfau yn fwy llaes a'r rheolau yn fwy llac. Y mae yn ymddwyn fel y byd oddiallan, a buan yr anghofia ymddygiad yr ysgol. Waeth beth ddysg plant yn yr ysgol os na fydd safon y rhieni yn uchel mewn purdeb iaith, moesgarwch, ymddygiad, a geirwiredd ymadrodd. Nid yw'r byd oddiallan yn cyfnewid fawr ar syniadau plentyn am ddaeareg, ond gedy effaith ddwfn ar ei gymeriad.

Y mae'r un peth yn wir am y capel. Gŵyr pawb mor bell yw moesoldeb y byd o safon moesoldeb y capel. Y mae Mari a Marged mewn boddfa o ddagrau yn y cwrdd 'whech wrth wrando ar Mr. Jones yn pregethu ar Gariad; a chyn nos Sadwrn y mae'r ddwy yn llawn clap a chleber o dy i dy, ac yn creu cynen rhwng cym'dogion mewn perffaith anghofrwydd o bregeth y Sul.

Os am ddysgu gwaith saer y ffordd oreu yw myned yn brentis at grefftwr da, a myned drwy brofiad manwl ac ymarferol o'r gwaith. Yn ddiameu y ffordd oreu i ddysgu ymddwyn yn deilwng yw myned dan ofal parhaus pobl o gymeriad teilwng. Dyna'r rheswm am

Ddylanwad Anferthol y Cartref

mewn ffurfio cymeriad. Nid anghofio yw perygl mawr plentyn wedi gadael yr ysgol, ond dad-ddysgu drwy ymarfer parhaus y pethau goreu mae wedi dderbyn yn yr ysgol. Mae'n bosibl i'r plentyn anghofio daearyddiaeth, ond nid yw yn debyg o ddad-ddysgu dim. Y mae'n wahanol gyda moesau.

Gwn fod cariad y Cymro at addysg yn wresog iawn; ond amheuaf ei ddelfryd. Yn Sir Aberteifi, uchelgais pob ffermwr, fe ddywedir, yw magu mochyn bob blwyddyn a 'ffeirad bob oes—ac yn ddiweddar y mae wedi ychwanegu ysgolfeistr at ei stoc—creadur a llai o broffit ond mwy o sicrwydd yn nglyn ag ef. Yr wyf yn ofni mai'r proffit a'r clod sydd wrth wraidd cariad y ffermwr at ei stoc. Y mae'n leicio gweled ei foch yn dew a'i fab yn wr boneddig. Pe baem yn cymeryd i ystyriaeth y bobl hyny a anfonant eu plant i'r ysgol ganolraddol yn unig er mwyn addysg, ofnwyf mai ychydig iawn fyddent. Y mae cariad at addysg Cymru, 99 y cant o hono, yn gynwysedig mewn cariad at ddyfod yn mlaen yn y byd.

Beth gwell wyf o ddanfon John i'r ysgol ganolraddol, os nad yw yn golygu gwneud dim o'r ysgol, gofyn y ffermwr? Bydd y ffarm i

John ar ol fy nydd i, ac y mae'n gwybod digon at ei waith ; y mae eisoes wedi cael mwy o ysgol na'i dad. Eithaf iawn ; os na fedr yr ysgol wneud John yn well ffermwr a gwell dyn, goreu peth yw iddo aros gartref.

Y mae dyn yn naturiol yn ymhyfrydu mewn gwaith llaw o bob math ; a goreu oll po mwyaf y medr gaiff roddi yn ei waith. Hen fai yr ysgolion oedd taflu anfri ar lafur, ond llafur llyfrau. Ond ceisir bron yn mhob ysgol yn awr greu dyddordeb mewn gwaith llaw, a chariad at grefft a llafur. Dysgir plant i gerfio mewn coed a metel, a merched i olchi a smwddio a choginio. Mewn gair cynygir yn deg at barotoi plant ar gyfer eu gwaith dyfodol. Fel yr awgrymais uchod ofnwyf fod cariad at addysg yn Nghymru yn fynych yn golygu dyhead am ryddid o'r llafur hwnw sydd yn llychwinio'r llaw ac yn chwysu'r talcen. Ond os "codi" plant o fod yn llafurwyr a ffermwyr gonest i lenwi rhengau mân-swyddogion y masnachdai a'r llywodraeth ; i fod yn ysgolfeistri, a phregethwyr ac offeiriaid, a'r oll er mwyn arbed "gweithio," yw prif uchelgais carwyr addysg yn Nghymru, nid oes ond trychineb i oddiweddyd ein gwlad. Myn rhai mai neges y Cymro yw bod yn athraw tymhorol ac ysbrydol i'r gweddill o'r byd. Dichon fod yn y Cymro yn fynych alluoedd sydd yn ei gymhwyso yn arbenig i fod yn athraw ; ond credaf fod canoedd o Gymry heddyw yn dysgu plant ac yn pregethu yn ein pwlpudau, y buasai'r wlad yn gyfoethocach o honynt pe baent tu ol i'r "ffwrwm waith" neu rhwng dau corn yr aradr ; a buasent hwythau yn ddeng hapusach o gymeryd eu lle yn ol y drefn fwriadwyd iddynt gan natur.

Y mae llyfrau wedi dyfod mor rhad yn y dyddiau hyn fel na thelir sylw neillduol i'w perchenog ; ac erbyn hyn y mae cyfle gan bawb i ddyfod yn wybodus ; ac ni thelir parch neillduol i'r gwr nad yw yn berchen dim ond gwybodaeth. 'Does dim mwy aml na'r "ffwl hyddysg"—"*the learned ignoramus.*" Nid yw dysg bob amser yn golygu doethineb. Gall y torwr cerrig Cymreig fod yn ddoethach gwr na'r ieithwr goreu yn un o'n hathrofeydd cenedlaethol.

Nid wyf am ddiystyru gwybodaeth, yr unig beth wyf am bwysleisio yw nad gwybodaeth yw amcan uwchaf addysg. Wrth gwrs ffurfia gwybodaeth ran helaeth iawn o unrhyw gyfundrefn ysgolheigiawl. Rhenir y meddwl dynol yn dair rhan—y deall, y teimlad, a'r ewyllys. Y mae a fyno gwybodaeth a'r *deall* yn fwyaf neillduol, ond gwelir ar unwaith bwysigrwydd y ddwy ran arall. Bod peryglus yw'r dyn deallgar, sydd heb gydymdeimlad ynddo, a'r ewyllys mor wan fel yr ysgogir hi gan bob awel.

Y mae twrw aruthrol i'w glywed y dyddiau hyn yn nhylch Adroddiad Bwrdd Addysg Llundain ar waith Ysgolion Canolraddol Cymru. Dywed yr Adroddiad fod cyfundrefn ein haddysg yn creu "meddwl prenaidd" yn y plant ; mewn gair nad yw meddwl ieuenctyd Cymru yn cael ei ddeffro ond ei fygu yn ein hysgolion. Y mae peth gwir yn yr haeriad. Yn ddios a diau bai mawr ein cyfundrefn yw "crammo" gwybodaeth i'r plant er mwyn eu cael i basio arholiadau. Bob haf cyhoeddir rhestr faith o ddysgyblion llwyddianus ein

hysgolion yn ein papyrau; a bernir gwaith ein hathrawon canolraddol oddiwrth hyd ac "anrhydeddau" y rhestri hyn. Y mae'r ysgolfeistr wedi dysgu'r plant a'r cyhoedd i farnu'r gwaith oddiwrth yr adroddiadau hyn. Ni fu dim mwy disynwyr erioed. Ai'r 5 neu'r 10 y cant o'r plant sydd yn derbyn tystysgrifau mewn "anrhydeddau" yw unig gynyrch yr ysgol? Ai'r ychydig sydd a'u hwynebau ar yr athrofa sydd yn myned i adael ei ôl ar Gymru'r dyfodol? Yn ddiameu, mewn llawer o ysgolion, caiff amryw o'r plant, ac yn enwedig y merched, tua'r oedran tyner o 15 neu 16 eu gor-weithio yn dost. Caiff yr oes a ddel dalu yn drwm am y camwri hwn a wneir a mamau'r dyfodol.

Ond y trychineb mwyaf yn nglyn a'r "cramming system" yw'r ffaith fod degau o blant yn cael eu troi allan o'n hysgolion yn feunyddiol a chas perffaith yn eu calonau at yr hyn fwriedid ddysgu iddynt yn yr ysgol. Y mae'r boen a deimlais fy hun yn nglyn a dysgu *Deserted Village* Goldsmith wedi'm hanaddasu am byth i gael dim pleser o'r campwaith llenyddol hwnw. A pha nifer o weithiau y mae Shakespeare wedi ei ladd yn ein hysgolion? Nid drwy orfodiaeth y cymer plentyn ei luniaeth deallol; a'r hyn a gymer drwy drais ni wna ond cynyrchu diffyg traul meddyliol a chyfog ysbrydol o'i fewn.

Y mae mewn plant ddyddordeb mawr mewn llawer o bethau, ac mewn rhai pethau yn fwy na'i gilydd; amcenir, drwy amrywiaeth testynau yr ysgol, gyrhaedd prif ddyddordeb pob plentyn ac yn y diwedd roddi mantais iddo i wneud ei oreu gyda'r testyn y cymer fwyaf o ddyddordeb ynddô. Ond mor aml y mae ein hysgolion yn lladd awch meddyliol y plentyn yn lle ei fywhau!

Dylai pob ysgol amcanu at droi pob disgybl allan a'i gorph, a'i foes, a'i feddwl yn fyw ac yn iach. Dyna ddylai fod yn amcan penaf peirianwaith addysg Cymru; ac yn ddiamheu y mae hyny yn cael ei wneud i raddau helaeth; ond fel pob peirianwaith y mae yn hawlio ei laddedigion.

Y mae'r peirianwaith hwn yn nwylaw gwerin Cymru; ac y mae'n bryd i'r wlad holi ei hun gyda phob difrifoldeb a ydyw yn caru ei phlant ac yn caru gwir addysg. Y mae'r hen frwdfrydedd wedi myned heibio, ac amser hunan-ymchwiliad ac adfyfyrdod wedi cyrhaedd. Myn y werin yr hyn a ddewis.

Trech Gwlad nac Arglwydd;

ie, a threch gwlad nac athraw. Waeth pa mor uchel yw delfryd yr ysgolfeistr os mai isel yw delfryd gwlad. Os mai plant wedi eu traisborthi ar frasder gwybodaeth a fyn y werin, hyny a gaiff. Os mai disgyblion yn meddu ar gryfder meddyliol ac asgwrn cefn moesol a fyn y wlad, hi a'u caiff. Nid yw'r athraw ond gwas y bobl, lle dylasai fod yn arweinydd iddynt.

Gwerin ryfedd yw gwerin Cymru; ddoe yr oedd yn feddw ar win y diwygiad; heddyw y mae yn wallgof yn mrwydrau llafur yn

Nhonypandy. Yfory ail-ddechreu holi ei hun, a gwelir hi ond odid yn fodda o ddagrau edifeiriol. Ddoe yr oedd y wlad yn sychedu am addysg, heb holi yn gyntaf y gwahaniaeth rhwng y gwir a'r gau mewn dysg; heddyw gwelir ei bechgyn a'i merched lawer o honynt yn ymddihoeni mewn afiechyd, canys diodwyd hwy â gormodedd o ddiod afiach. Pura dy ddiodydd meddyliol, O Gymru, fel y rhedont yn bur i'th blant, fel y rhed diod natur o fynwes y mynydd a'r graig!

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Penod V.—(Parhad).

Anffaeledigrwydd.

II. Fy ail bwynt yw nad yw y fath dywysydd anffaeledig i'w gael yn y Beibl, pe bae yn beth dymunadwy. Rhaid condemnio'r Beibl fel methiant truenus mor bell ag a mae'r hawl ei fod yn arweinydd anffaeledig yn myned. Os yw yn hyfforddiadur anffaeledig mewn materion ffydd ac ymarweddiad, yn dweyd wrth ddynion beth i feddwl a beth i wneud, yna y mae gwahanol sectau Protestanaidd y byd Cristionogol yn arddangosiad i ryfeddu ato. Â pob sect i'r Beibl a cha yno y cyfiawnhad anffaeledig yr edrych am dano. Tŷn y Pab allan o un adran yr athrawiaeth o awdurdod yr Eglwys i faddeu pechodau; tŷn yr offeiriad allan o adran arall yr hawl o'r gredo o ail-enedigaeth trwy fedydd; ca'r Saint allan o hono awdurdod dros amlwreiciaeth; tŷn y mynach allan o hono yr athrawiaeth fod corph dyn yn llygredig ac mai prin y dylai gael yr ymborth dyledus iddo; ca'r Annibynwr ynddo na ddylai yna fod esgobion; y Trindodwr fod Iesu yn Dduw a'r Undodwr nad oedd Iesu ond dyn. Canfydda'r Calfinwr ynddo etholedigaeth yr ychydig, ond y Cyffredinolwr (*Universalist*) yn hytrach iachawdwriaeth pawb oll. A'r oll i'r un ffynonell ac eto tynant oll o honi gasgliadau gwahanol. Yn mha le, ynte, y mae'r anffaeledigrwydd os y sieryd gyda'r fath wahanol leisiau? Dyna'r anhawstra arosol—datguddiad o wirionedd, gwirionedd Duw ei hun, o'i enau ei hun, fel y cred llawer; ac eto, yn mhlith y rhai dderbyniant y datguddiad a'u holl galon y mae yna wahaniaethau dibendraw, cwerylon dinystriol yn nghylch yr un geiriau o eiddo'r Tragwyddol.

Nid yw trin y Beibl fel pe bae yn llyfr o gyfarwyddiadau anffaeledig at bob anhawsder a phob athrawiaeth, a chymhwyso ei adnodau, wedi eu tynu yn debygol allan o bob cysylltiad â'r pynciau ar y rhai y bwriadwyd iddynt drin, i eglurhau mewn ffordd rwydd bob dadl, fel pe bae llythyren un frawddeg yn ddigon i benderfynu pobpeth ac

na bae gan y deall ddim i wneud ond ufuddhau yn dawel, nid yw hyn ond ei wneud yn eilun.

Peidiwch fy nghamddeall. Unwaith eto gadewch i mi ddweyd nad wyf am laesu gafael neb ar wirioneddau sylweddol y Beibl. Ond un peth yw gwirionedd sylweddol a pheth arall hollol wahanol yw gwirionedd anffaeledig. Cawn dywysiad yn y Beibl yn nglyn a'r materion mwyaf—addysg am Dduw a dyledswydd, am unionder a bywyd sanctaidd, am gariad a heddwch a chyfiawnder ac anfarwoldeb. Cawn y gwirionedd sylweddol; ond cawn hefyd gyfeiliornadau, camsyniadau, cymysgedd o'r gwir a'r anwir a gwrthddywediadau, a rhaid i ni gael gafael yn y gwirionedd trwy wneud defnydd o'n rheswm, o'n barn ac o'n cydwybod.

'Rwyf wedi dangos yn barod i chwi nad yw y Beibl Seisnig yn rhydd oddiwrth gyfeiliornad, a byddai dweyd ei fod, cystal a dweyd fod y cyfieithwyr, yr adysgrifenwyr a'r argraffwyr oll wedi eu cadw yn wyrthiol rhag camsynied. Beth mae'r bobl sydd wedi bod yn dal anffaeledigrwydd y Cyfieithiad Awdurdodedig o'r Testament Newydd i ddweyd i'r ffaith grybwyllais o'r blaen fod y Cyfieithiad Diwygiedig yn cynhwys 36,000 o gyfnewidiadau? Dangosais i chwi nad oes yna yr un lawysgrifen Groeg na Hebraeg yn rhydd oddiwrth gyfeiliornad ac nad oes unrhyw ddwy o'r hen lawysgrifau hyn yn cytuno yn hollol. Yr ateb arferol i'r modd yma o drin y pwnc yw, wrth gwrs, ei fod yn orfeirniadol; ei fod yn gwneud mynydd o grugyn o bridd y wadd; fod camsyniadau adysgrifenwyr a chyfieithwyr yn gwbl ddibwys. Ond mae camsynied dibwys yn ddigon i ddirymu anffaeledigrwydd. Mae unrhyw beth naill ai yn syth neu nad yw; nid oes y fath beth a graddau o sychder. Nid oes ychwaith y fath beth a graddau o anffaeledigrwydd. Llygra *un* camsyniad yr holl hawl, oblegyd os yw yr awdurdod yn gamsyniol ar un pwnc, pwy sicrwydd sydd gyda ni nas gall gyfeiliorni mewn un arall? Cyfaddefir nad yw y Beibl yn anffaeledig yn llythyrenol ac yn eiriol, ond dywedir wrthym nad yw hyn o wahaniaeth. Er nad yn anffaeledig, eto cynwys air anffaeledig Duw. Ond er i'r duwinyddion ganiatau fod y Beibl yn ffaeledig, eto y maent yn ddigllawn iawn pan y cyfeiriwn at y ffaith na chrewyd y byd mewn chwech diwrnod, neu fod moesoldeb Pum' Llyfr Moses yn ddiffygiol. Llyfr ffaeledig yw, ond rhaid peidio ei amheu! A llenwir hwy gan fraw os beiddia un mwy eofn na'r lleill ddweyd wrth y bobl fod Mathew a Luc yn anghytuno yn anghymodlawn yn nghylch achau'r Iesu, neu fod Pedr yn camgyfaddasu salm, neu fod Paul yn camsynied yn hollol pan yn prophwydo ail ddyfodiad uniongyrchol Crist. Cyhuddir y siaradwr o fod yn Atheist a dangosir wmredd o gywreinrwydd duwiolfrydig, neu yn hytrach o graffder annuwiol, yn yr ymdrech i gymodi anghysonderau neu i esbonio i ffwrdd ddywediadau eglur trwy roddi iddynt feddyliau arallegol neu ddamegol. Pan mae yn galed arnynt (mewn dadl) cyfaddefant ffaeledigrwydd y Beibl, ond yn y defnydd ymarferol wnant o hono parha dynion i drin y Beibl fel pe na bae y gred yn ei anffaeledigrwydd wedi ei amheu erioed.

Yn mha le, ynte, gallwch ofyn, y mae tywysiad anffaeledig i'w gael. Atebaf nas gellwch ddihatru eich hun oddiwrth gyfrifoldeb; rhaid i *chwi* farnu, rhaid i *chwi* feddwl, rhaid i *chwi* benderfynu, gan gredu fod yspryd Duw mor sicr ynoch *chwi* heddyw ag y bu erioed yn Esaiah a Ioan; ac fod yna ysprydoliaeth mor wir, mor sylweddol ag unrhyw un y cyrhaeddodd prophwyd neu apostol tuag ati yn eiddo i chwi os y mynwch. Profa ysprydoliaeth dynion yr hen amserau yn y mater o ddeffroi'r gydwybod, profa nid yn unig bosibilrwydd, ond y ffaith weithredol o gymundeb presenol â'r Tad. Unwaith y teimlir hyn, cawn lawer gwell maen prawf gwirionedd nag unrhyw safon allanol anffaeledig, am ei fod yn fwy addysgol yn ei ddylanwad. "Oblegyd rhaid fod Duw yn well na'r goreu allwn ni feddwl am dano, yn fwy cyfiawn a phur na'n meddwl uchelaf, yn fwy cariadus, tyner ac amyneddgar nag y gall ein tosturi ni byth gyrhaedd." Gofynwch, ynte, pan y palla pob sicrwydd arall, pa un ai'r olwg yma neu'r olwg acw o wirionedd crefyddol eanga ac a ddyfnha fwyaf fy nghariad tuag at Dduw a dyn. A deimlaf fi fy hun yn cael fy amgylchu fwy gan y Bywyd dwyfol pan yn ceisio credu mewn cospedigaeth dragwyddol neu pan yn rhoi fy hyder ar y gobaith eangach? Pa un sydd fwyaf cydweddol â thelerau hanfodol meddwl ac â ffynonau teimlad ynof—bydysawd o ronynau difywyd neu ynte fyd sydd yn byw, yn symud ac yn bod yn Nuw?" Sut y syniaf fwyaf teilwng am Dduw—pan yn meddwl am dano fel yn collfarnu plant bychain am bechod na wnaethant erioed, ond a wnawd gan Adda; neu pan yn meddwl am dano fel yn caru plentyn bach yn fwy tyner na'i fam ei hun? Hyderwch yn eich greddfau goreu, yn eich teimladau mwyaf dyngarol, yn eich syniad puraf o wirionedd a chyfiawnder; hyderwch ynddynt hwy yn hytrach nag mewn llythyrenau llyfr, fel llais Duw o'ch mewn. Y rhai yma yw Ei "dyner wawl," sydd yn addaw i bob enaid gweithgar ac eiddgar ddydd clirach, brofiad mwy dysglaer ac uwch gwirionedd. Cadwch eich gwynebau tuag at y goleuni, yn nghyfeiriad teimlad purach, cariad eangach, hunan-lywodraeth mwy disyfl, ymlyniad mwy ffyddlon wrth y dyledswyddau a'r gwirioneddau ydych yn sicr o honynt, canys wed'yn fe'ch tywysir yn well na chan unrhyw safon anffaeledig. Pa eisiau sydd i chwi ddychrynu am eich bod yn canlyn goleuni Duw o'ch mewn yn hytrach na goleuni llyfr? "Ni chondemnia Duw chwi am unrhyw gamsynied meddyliol, ond yn unig am yr anffyddlondeb meddyliol na chanlyna arweiniad Ei yspryd tuag at fywyd uwch a ffydd eangach. Ond gall yr hwn ganlyna dywyniad clir goleuni Duw gyda pharchedig ofn, diffuantrwydd ac hunanaberth, deimlo yn sicr ei fod, megys llong gyda'i chwmpawd, yn cario gydag ef dywysydd a'i dwg i'r hafan ddymunol yn y diwedd."*

---

* Gweler "New Theories and Old Faith," gan J. A. Picton am driniaeth feistrolgar o'r holl bwnc.

ADGOFION AM DDIWYGIAD 1904–05 YN NHRECYNON.

II.

Y wawr yn tori, a'r cedrwydd yn llosgi.

Tlysach cân na cherdd y cyfnos fuasai'r un ddarluniai gysgodion llwyd y nos yn toddi yn wybrenau'r wawl a'r un nyddid i enfysu lliwiau'r wawr wrth dori ar ororau dwyrain y Dyffryn. Melused fuasai darllen carolau'r plygain; a thlysed fuasai yr alawon seinbêr i belydrau'r heulwen. Swyned odlent am ei dês yn berwi ar frig y dolydd; ac am chwarddiadau blodau'r maes wrth deimlo sang y wyrth. Beth fuasai'r duchangerdd am lwydrew cyfnos Seion yn ymyl rhaiadrau'r awen rydd yn canu am orfoledd gwerin wedi deffro wrth byrth y wawr a'i phryddestau cerddgar am rydd-deb plant y cadwynau. Gweled

Libanus yn agor ei ddorau

a'r tân yn llosgi ei gedrwydd oedd rhamant gyntaf y wawr-ddydd. Gorfoledd oedd gan y planhigion weled y cedrwydd yn adnabod yr awel—yn deall swn y fflam ac yn croesawu'r gwynt! Pan rydd y cedrwydd arwydd o ddynesiad yr awel, mae adsain trwst cerddediad yn glywadwy yn mrig y morwydd pryd hyny.

Gweledigaethau'r henuriaid yw'r sicrwydd penaf fod engyl ar y ffordd yn rhagredegu'r deffroad. Pan mae yr henafgwyr yn breuddwydio breuddwydion, ac yn—

"Clywed adsain yr Efengyl
Megis o'r mynyddoedd draw
Mae y bryniau yn ein hymyl
Fel yn d'weyd fod Duw gerllaw."

—(*Watcyn Wyn.*)

Ar wyrddlesni un o gedrwydd "Mynydd Duw" gwelwyd llewyrch gwanaidd blaen y wawr yn tori—yr haul yn tywynu, ac yn taflu ei belydrau gyntaf; ac ni amheuodd neb welodd ei brydferthwch pa un oedd a'i wraidd wedi ei blanu ar lan afonydd Duw; a thrwy y tymhorau oer, nis gwelwyd ef heb fod y gwlith wedi bod yn ireiddio ei ganghenau, a phelydrau *Haul y Cyfiawnder* wedi bod yn glasu ei frigau.

Symledd yw hanes y boreu-ddydd hwnw ac amlyced gwelwyd llaw yr Arglwydd yn agor ei ddorau.

Yr oedd y diwygiwr ieuanc o lanau'r Llwchwr wedi ei alw i gario ac i wasgar y tân ar lanau'r Cynon, y Cymer, y Garw, yr Ogwy a'r Taf, ac i danio holl eglwysi Gogledd a Dwyrain Morganwg o'r bron; a chafodd gyfle ac awdurdod gan Dduw a dynion i ddefnyddio capelau cymoedd i gario allan ei genhadaeth danllyd.

Dechreuodd fwrw ei gwreichion foreu Sul, Tachwedd y 13eg, 1904, yn addoldy'r Bryn.* Ond er fod enw'r diwygiwr led-led y De, o gyffiniau Mynwy ar Lanau'r Wysg hyd ar fordir Penfro; yr oedd ei alwad yn rhy gyfrin a'i ddyfodiad yn rhy sydyn i fod yn hysbys i neb ond i'r ychydig hyny oedd â llaw yn y trefniadau. Cyn lleied o olion ymgynghoriad â chig a gwaed ganfyddir yn nodweddu arfaeth yr alwad syml a brysiog hono o eiddo ysbryd Duw. Braidd nad ymddengys fel pe yn gwarafun i ni gredu fod yr elfen ddynol wedi chwareu ei rhan o gwbl yn nglyn a'r amgylchiadau, oni buasai ein bod yn gwybod am gyfryngau yr alwad.

Boreu Bythgofiadwy

yn nghof a phrófiad y ddeadell

* Capel y Methodistiaid yn Nhrecynon.

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

———:o:———

YR ✵ YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

———:o:———

GOLYGWYR:

Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL, A SARNICOL,

COUNTY SCHOOL, ABERTILLERY.

———:o:———

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

———:o:———

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

———:o:———

CYFROL 10.

1910.

———

LLANDYSSUL:

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNHWYSIAD.

Adgofion am Ddiwygiad 1904-5, yn Nhrecynon, 253, 274.
Adolygiad, 210.
Anibyniaeth bersonol mewn undeb Cymdeithasol, 201.
Ar Edyn Ffydd, 1, 25, 74, 97, 169, 193.
Arwres y Crimea, 217.
Awrlais y Gydwybod, 169.

Beibl, Y: yr hyn yw a'r hyn nad yw, 3, 26, 49, 98, 124, 220, 271.
Blwyddyn Newydd, 1.
Borrow, George, 42.
Bywyd yn y byd a ddaw, 11.

Campbell, Y Parch. R. J. ar "Uffern," 199.
Cefncoed, H. D. C., 255.
Ceredigion, Uchel Sirydd, 134.
Ceredigion, Y Gymanfa Gerddorol, 164.
Confuciaeth, 247.
CONGL YR AWEN :—
Awr Angeu, 70.
Blodau-dorch ar fedd J. James, Coedyfoel, Llandyssul, 128.
Blwyddyn Newydd, 1.
Byw, 239.
Cariad Duw, 47.
Cariad ydyw Duw, 58.
Cawn fwy na'u gwerth yn ol, 58.
Cwyn awen uwch bedd Hathren, 81.
Cwyn coll am Hathren, 74.
Dros y Morwyr, 193.
Ein cyfle, 25.
Er cof am D. Thomas, Castellhywel Arms, 213.
Gobaith yn Nuw, 69.
Gorfoledd anian, 48.
Gweddi Theodore Parker, 219.
Gwinllan y Bardd, 38.
Llais y lle, 246.
Paid rhoi fyny, 97.
Trech Gwlad nac Arglwydd, 90.
Uchelgais, 91.
Y Nos, 92.
Yr Ehedydd, 91.

Crefydd a Chrefyddau, 224.
Crefydd ein Tadau, 210.
Cristionogaeth a Sosialaeth, 59.
Cyfarfodydd Blynyddol, Y, 184.
Cyfarfodydd Blynyddol, Yr Efengyl Undodaidd yn y, 186.
Cyfarfodydd Chwarterol, Y, 113, 257.
Cyferbyniad, 260.
Cynhadledd Genhadol y Byd yn Edinburgh, 170.
Cwmtillery i'r Grand Canary, 207, 231, 251.

Davies, Mrs. Mary, Aberdar, 152, 228.
Davies, Sefydliad y Parch. J. Carrara, 255.
Davies, Sefydliad y Parch. James Glynne, 257.
Davies, Y diweddar Barch. John Hathren, 74, 77, 79, 81, 104.
Doncaster, Y llaw farw yn, 145.
Dyledswydd rhieni mewn perthynas i Addysg Elfenol eu plant, 14.
Dyn a'i waith, 176.
Dyn fel plentyn Duw, 234.
Dynes Dduwiol, 152, 228.

Eglwysi, At ein, 37.
Englynion i'r Prifathro Walter J. Evans, M.A., 276.
Epistolau Iesu Grist ac Abgarus, 41.

Forsyth, Dr. P. J., a'r Parch. R. J. Campbell, 89.

Gogwyddiad yr oes tuag at ddigrifwch, 110, 155.
Groes, Arwydd y, 31.
Gweddi, 1, 193.
Gymdeithas Undodaidd Gymreig, Y, 113.

Hathren, Er cof am, 175.
Hathren, Orig gyda, 102.
Hughes, Y Parch. H. M., a'r Undodiaid, 198.

Iesu Grist, Geiriau newydd, 233.
Iorwerth VII, Marwolaeth, 121.
Islwyn, Barddoniaeth, 87, 106.

J. J. T., Llith, 188.

Lloyd, Y Parch. David, Caerfyrddin, 162.
Llyfrgell y Pregethwr, 279.
Llygaid i weled, 64.

Manion ac Hanesion, 21, 46, 71, 94, 118, 141, 167, 213, 237, 262, 283.
Manning, Y Parch. J. E., 192.
Martineau, James, 42.
Marwgofion, 19, 42, 70, 92, 114, 138, 165, 192, 211, 236, 261, 281.

Napoleon Bonaparte, 129.
Nodion y Mis, 2, 146.

O Fon i Fynwy, 34, 53, 149, 241, 265.
Oriel Coleg Caerfyrddin, 2.

Paul ac Iesu, 7.
Pethau newydd a hen, 189, 277.
Pregeth gan y Diweddar Barch. Hathren Davies, 82.
Priodasau, 18, 114, 192, 210, 235, 261.
Thomas, John, Vrondolay, 134.

Undodiaid Gwangalon, 39.

Winter, Charles, 239.

Ymson y Myfyriwr, 172, 194.
Ysgol Sul, Arholiad yr, 160.

Zoroaster, 205.



fechan yn y Bryn fydd y boreu Sul tawel-fwyn canol Tachwedd hwnw bellach! Tybier am dani wedi ymgynull yn nghyd i'w chorlan er addoli yn ol ei harfer, ac heb brophwydo dim am ddieithrwch yr oedfa oedd yn ei haros.

Yn ngwyneb effeithiau a chanlyniadau bendith fawr yr oedfa, yr oedd yn gwbl anichonadwy i'r addolwyr i beidio sylweddoli symlrwydd a mawredd ei gogoniant. Priodol iawn yw priodoli cychwyniad y diwygiad yn yr ardal i'r eneiniad ddisgynodd ac a deimlwyd yn yr oedfa hono. Disgwylient hwy yn ddiau am oedfa o'r nodwedd arferol ond oedfa heb i'w ffurf na'i threfn gyffredin i reoli ei hamser nac i fesur ei bendith gafwyd.

Dychwelai'r bobl yn finteioedd o'u capelau, ac arosent yn dyrau ar ol eu gilydd o flaen y Bryn, a synent fod yr oedfa yn para cyhyd, ac at y swn wylofus a glywent. Wedi aros enyd o flaen y drws, aethom yn araf a distaw ein sang i fewn i'r Lobby, a gwthiem ein clust yn araf deg yn mlaen trwy gil y drws nesaf i fewn; a gwelwyd y blaenor y cyfeiriwyd ato yn dyrchu ei wyneb llaith a'i ddwylaw yn estynedig tua'r

GAFELL SANCTAIDD—

Gweddused goblygai pawb eu penau tra yr oedd y weddi ryfedd hono yn cael ei hoffrymu!

Yr oedd yr adnodau lithrent dros ei wefus yn gymysg a'r dagrau dreiglent dros ei ruddiau fel

PERLAU DETHOLEDIG

ond atolwg! tôn ac ansawdd ei hysbryd, oedd ei phrif ogoniant! Meddyliem ar y pryd wrth deimlo ei gwefr a'i thaerni dwys mai hi oedd y weddi gyntaf i ni wrando erioed. Rhyw wëad oedd ei ffurf o adnodau'r Salmau a'r Prophwydi—wedi eu dolenu a'u harall-eirio am glafychdod Seion — cyflawniad yr addewidion a gwireddiad *Gair y Memrwn.* Amheuthyn fuasai gallu cofio ei chnewyllyn, a'i dyfynu'n rhigl heb adael allan gyswllt na goslef o'i chyfuniad—ond teimlwn ei bod o werth i'w chroniclo'n ddarnau gwasgar ac yn gymalau di-berthynas. Pwy oedd yno na chofia am dano yn selio â'i freichiau, ac yn cadarnhau y sicrwydd â'i ddiolchiadau hyglyw i Dduw fod—

Y GWLITH WEDI DISGYN

ac yn deisyfu arno i rwygo'r wybrenau ac i dori'r argaeau, a thywallt y cawodau, nes mwydo daear Cymru ben-bwy gilydd! a pheri i gringoed ei gelltydd i lasu—i'r esgyrn oedd wedi eu beddrodi ddyfod eto i wisgo cnawd a giau—i'r telynau fu'n segur yn hir ac yn fud ar helyg-goed y glyn i ddyfod i chwareu'n llu ar orielau Seion, ac i foliant plant yr hen delynorion i ddyfod i dori ar ddistawrwydd gaeafol pyrth Jerusalem. Pwy na chofia am dano yn datgan mor orfoleddus am wewyr priodferch Seion, ac am fod awr ei hesgorfa wedi ei goddiweddyd; ac am fod dydd yr addewid i eni cenedl newydd wedi gwawrio; ac o mor ddiolchgar y dywedai—

"Bendigedig fyddo Dy enw Arglwydd mawr. Yr wyt wedi diosg braich Dy allu mawr unwaith eto, ac yn gwneud Dy enw yn hysbys yn Israel—i etifeddion y cyfamod gras. Gwnaethost ryfeddodau yn y dyddiau gynt. Par eto i'th iachawdwriaeth i fod yn weladwy trwy gyrau'r ddaear. Chwyth y marwor yn dân cyn ei farw o dan yr hen allorau. Dysg i'r cenhedloedd rodio yn Dy oleuni a theyrnased brenhinoedd y ddaear yn Dy ddysglaerdeb. Gad i ogoniant Libanus ddyfod atat, ac i goed y Dwyrain ddyfod i harddu Dy gysegr. Diffodd genfigen Ephraim, a symud dramgwydd Judah o dir Dy etifeddiaeth. Darostwng gyndynrwydd Dy gystuddwyr, a phar i'r rhai oll a'th ddiystyrant ymostwng wrth wadnau Dy draed, ac i alw'th Eglwys yn Ddinas yr Arglwydd, ac yn Sion Sanct Israel. Rho ganiadau newydd yn ngenau Dy broffwydi—rhai fu a'u

llygaid yn ffynhonau o ddagrau dros laddedigion merch Dy bobl. Adeilada balasau yn yr anialwch ; a gwna i ŷd dyfu ar hyd ochrau'r mynyddoedd. Diolch ! mae rhywbeth tebyg yma heddyw ! Mae rhai o'n hen wrandawyr yn oedi yn Dy gynteddoedd : a rhai wedi cael blas ar Dy byrth. Maent wedi dyfod i wel'd hawddgarwch Dy gysegr. O Frenin Seion ! Gad iddynt deimlo hyfrydwch Dy babell, Arglwydd Mawr ! Er mwyn Seion, achub ! Achub hen elynion Dy Deyrnas !

" Rhwyga'r lleni, ymddisglaera
Ar Dy drugareddfa lân,
Rho Dy lais a'th wenau tirion
Achub bentewynion tân !

Ti achubaist y rhai gwaethaf,
Annheilyngaf a fu'n bod ;
Achub eto—achub yma—
Achub finau er Dy glod !

Diolch i Ti am godi Diwygiwr yn Nghymru eto—yn mherson Dy Genad ieuanc, yr hwn o'th ewyllys da a ddanfonaist atom heddyw. Cynysgaedda ef a nerth o'r uchelder. Goddeithia'n gwlad trwy Ysbryd a thân ei genhadaeth. Gad i lewyrch ei choelgerthi fflachio dros gyffiniau'r ynysoedd, ac ar draws holl deyrnasoedd y ddaear." Dyma ran ac enghraifft anmherffaith o'r weddi ; ond yr oedd yn rhaid bod yn ei swn i amgyffred ei godidogrwydd, ac nis clywyd un waedd wagsaw yn ei difwyno, nac unrhyw ymadrodd amrwd yn ei hamharu. Wedi gorphen ei hoffrymu—teyrnasodd distawrwydd sanctaidd am enyd a gwelem wên fel heulwen Mai yn ymdaenu dros wyneb y Diwygiwr—tra'r oedd gwyneb y gweddiwr yn llaith gan ddagrau—ond buan bu rhaid i'r argaeau roi ffordd i gronfa'r dagrau lifo, ac i swn yr wylo gweddus dori allan a dadblygu'n gân a gweddi. Gorchwyl anhawdd fu diweddu'r oedfa wedi i'r gwlaw y gweddiwyd mor anghyffredin am dano ddechreu disgyn ; ac aros fynasai rhai am oriau pe bae eu profiadau wedi cael eu ffordd. Nid rhyfedd iddynt ganu wrth ymadael dros yr *aisle*

" Dyma'r nefoedd wyf am gael
Tu yma i'r bedd."

Y pelydr cyntaf yn rhag-redegu blaen y wawrddydd dlôs fu'r oedfa hono.

PARCWYSON.

Aberdar.

(*I'w barhan.*)

Y Prifathro Walter J. Evans, M.A.,

O Goleg y Presbyteriaid, Caerfyrddin, a Deon Duwinyddiaeth Prifysgol Cymru.

Addien dduwinydd hynod—goreugwr
O wiwgain 'sgolheigdod ;
Cyson yw yn ceisio'i nod,
Llanw eglwys a llen hyglod.

A hynafiaeth, cynefin—iawn ydyw,
Ac awdwyr cysefin ;
Hulio'n ber mae'i drylen bin,
Oreu fwrdd i Gaerfyrddin.

Tirion yw'r Presbyteriad—a hoenus,
Ynad mawr ddylanwad ;
Athro glew a doethawr gwlad
Yn anwyl dros ffin enwad.

Weithian bydd yn llywydd llon,—
llawn urddas,
A Deon addas y duwinyddion.

IEUAN MYNYW.

PETHAU NEWYDD A HEN.

Darlith hynod ddyddorol oedd hono o eiddo Kilsby ar "Ddynion wedi codi o Ddim." Dyn o'r dosparth hwnw oedd yr arlunydd enwog

WILLIAM HOLMAN HUNT,

yr hwn a fu farw dydd Sadwrn, Medi 7fed, yn 83 oed. Enillodd iddo ei hun safle anrhydeddus trwy ddyfalbarhad ac ymdrech didor yn erbyn anhawsderau. Efe oedd y diweddaf o'r tri wŷr ieuainc ddarfu gyd-gwrdd mewn ystafell yn Llundain i ffurfio'r Frawdoliaeth Gyn-Raffaelaidd — y ddau eraill oedd Dante Gabriel Rossetti (1828-82) a John Everett Millais (1829-96). Wedi hir ymddiddan â'u gilydd un tro daethant i'r penderfyniad i wneud pob o ddarlun o Iesu Grist. Cytunai Rossetti ar unwaith ; ond meddai Millais, "Dalla i ddim tynu darlun o beth na welais erioed. Gallaf ddarlunio plentyn, neu fenyw brydferth, neu hen wr, neu shop saer—pethau allaf weled."—Ebe Holman Hunt, "Os na allaf gael gafael ynddo yn y gorllewin, mynaf ef yn y dwyrain. Tynaf y gyfrinach allan o feini'r ddinas y bu'n byw ynddi, o dywod yr anialwch y bu'n newynu ynddo, o'r dyfroedd y bu'n rhodio arnynt. Mynaf afael arno, a phaentiaf ef fel rhywbeth *real* cyn fy marw." Dyna'r penderfyniad tu cefn i ddarlun enwocaf yr oes—

THE LIGHT OF THE WORLD

—Goleuni y Byd ! Mae copiau o'r darlun yn adnabyddus ddigon — Y Crist, â'i lusern yn ei law aswy, a'i law ddehau yn estynedig at y drws. Gellwch braidd glywed ei eiriau : "Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn *curo !* Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef, ac a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minau" (Dadg. 3 : 20). Sylwer—yn fanwl. Sylwer ar y llaw estynedig, sylwer ar y drws,—mae wedi ei folltio, yr hoelion yn rhydlyd, yr iorwg, y drain, a'r danadl, yn dangos fod y lle wedi ei lwyr esgeuluso. "Os clyw," &c.—ond wele'r proffwyd yn dyfod, yn ei wisg wen, ac yn nerth yr Ysbryd. Mae'r goron ddrain wedi ei chydblethu â choron aur. Mae yna ddau oleu, goleu cydwybod yn dangos pechod, ac wedi hyny goleu tangnefedd a gobaith iachawdwriaeth. Y llusern yn llaw aswy'r Crist yw goleu cydwybod, &c.,

Llosgwyd y corff ar y 10fed, a dodwyd y stên marmor yn cynwys y lludw yn y "Painters' Corner" yn St. Paul, yn mhresenoldeb lluaws o enwogion.

* * * *

Ar y pumed o Fai diweddaf bu farw'r

PARCH. ALEXANDER MACLAREN,

yn 83 oed, ac y mae ei fywgraffiad allan eisoes, yn gyfrol fawr drwchus a dyddorol. Oes frysiog yw ein hoes ni. Bedyddiwr oedd Dr. Maclaren, a'r enwocaf o honynt feallai. Yr unig un ellir ei enwi ar yr un anadl yw Dr. Clifford. Y peth mwyaf dyddorol am dano i ni fel Undodiaid yw'r ffaith ei fod ef a Dr. Martineau yn gyfeillion mawr. Cwrddent a'u gilydd yn fynych ar eu gwyliau haf yn Scotland, a dywedir y treulient oriau lawer mewn ymddiddan a'u gilydd. Cofiwn ddarllen am Carlyle ac Emerson yn treulio hwyr un dydd mewn ymddiddan, a chododd y gofyniad yn meddwl rhywun mor ddyddorol y byddai cael adroddiad cyflawn o'r ymddiddan—ymddiddan, feallai, yn nghylch dyfnion bethau bywyd. Ond ni adawyd un copinod. Yn gyffelyb, y mae miloedd a garent wybod y gyfrinach a basiodd rhwng y ddeuddyn mawr —y pregethwr mawr a'r athronydd mawr. Carent pe gellid ond cael

bhoto o honynt. Dywedir fod yr ymddiddan bob amser yn gyfeillgar. Nid rhwng dynion mawr y mae pynciau'r ffydd yn achos anghydgordiad, ond rhwng dynion bach, bach. Chwilia'r dynion mawr am y gwirionedd heb gwympo maes a'u gilydd : dynion bach sy'n methu gwneud. Cafodd Miss Edith Martineau yr anrhydedd o dynu darlun o Dr. Maclaren, a chafodd y darlun yr anrhydedd o fyned i'r Arddangosfa fawr yn Llundain.

* * * *

DADL BWYSIG

oedd hono gymerodd le gynt rhwng Dr. Samuel Horsley (1733-1806) a Dr. Joseph Priestley (1733-1804), y ddau wedi eu geni yr un flwyddyn, a'r ddau yn meddu'r anrhydedd mawr o osod F.R.S. ar ol eu henwau. Parhaodd y ddadl am flynyddau — Horsley yn ymosodwr. Yn 1782, cyhoeddodd Dr. Priestley ei "History of the Corruption of Christianity," llyfr dyddorol a gwerthfawr, ond wedi ei osod yn nghyd yn rhy frysiog, ac fel canlyniad heb fod yn rhydd o wallau. Cafodd y llyfr yr anrhydedd o'i losgi gan y "Common Hangman" yn Dort yn 1785. Argument cryf mewn amddiffyniad i athrawiaeth, ac un a ddefnyddid yn aml yn yr hen amser oedd hwn. Yr oedd yn fyr ac yn ateb y pwrpas ! Treiodd Horsley ei law mewn ffordd arall — ffordd reswm o ryw fath ; ond addefa mai ei un amcan mawr oedd, nid clirio anhawsderau, nid ateb cwestiynau, nid chwilio am y gwirionedd, ond dinystrio credit ei wrthwynebydd. Pwnc mawr Priestley oedd — Profi hynafiaeth a gwirionedd yr athrawiaeth Undodaidd ; pwnc Horsley— Profi anallu (*incompetency*) Priestley. Yn 1786, cyhoeddodd Priestley ei "History of Early Opinions concerning Jesus Christ," am yr hwn y dywedodd Dr. Martineau ei fod yn teilyngu y lle gore yn mhob llyfrgell dduwinyddol ; a'r hwn y cyfaddefa Dr. Horsley, gyda doethineb mawr, na ddarllenodd erioed mo hono. Ar derfyn y ddadl cafodd Horsley ei wneud yn esgob Ty Ddewi yn 1788, a symia Belsham y fusnes i fyny drwy ddweyd fod y ddau wedi ymneillduo o'r frwydr yn gyffelyb foddlawn — y naill gyda'i fuddugoliaeth a'r llall gyda'i feitr=ei esgobaeth ! Dygir hyn oll ar gof i ni gan lyfr newydd orwyr Horsley, Heneage Horsley Jebb, M.A., rheithor Streatham—"A great Bishop of One Hundred Years Ago." Oddi wrth hwn gallwn gasglu fod yr esgob yn gyfarwydd â gwyddor, duwinyddiaeth, ieithyddiaeth a gwleidyddiaeth ei oes. Nid oes dadl nad oedd yn ddyn mawr, a barn yr eglwys am dano oedd—He saved the Church from a real danger and dealt a blow to Unitarianism from which it has never recovered ! ! Eglwyswr oedd Horsley, cydwybodol medd ei gyfeillion, a llwyddiant yr Eglwys, bid cam bid cymwys, oedd amcan mawr ei fywyd. Nid oedd waeth beth ddigwyddai i'r enwadau ; fel aelod o Dy'r Arglwyddi, gwrthwynebai'r mesurau fyddai yn eu ffafr hwy. Cyn ei amser ef ordeinid dynion ieuainc o goleg Caerfyrddin ac o ysgol Castell Hywel. Gosododd stop ar hyny ; yr oedd awyrgylch lleoedd felly yn amheus yn ei olwg.

* * * *

Y mae llyfr newydd Mr. Frederick Pallas, "The Winning of Immortality," yn dwyn ar gof i ni bwnc y pregethwyd llawer arno flynyddau maith yn ol, yn benaf gan y Parch. Edward White—sef "Life in Christ" —Bywyd yn Nghrist." Tybiwn fod y ddau yn codi oddiar math o wrthdro (revulsion) yn erbyn athrawiaeth Poenau Tragwyddol ; ac mae'r ddau yn sicr yn fwy rhesymol na'r hen athrawiaeth hono. Eto awgryma sefyllfa feddyliol na allwn ni ddim dygymod ag ef ; nad yw Anfarwoldeb ddim yn naturiol i ddyn, ei fod yn rhywbeth sy'n dibynu ar y defnydd a wna dyn o'i fanteision a'i gyfleusderau,—yn gamp y rhaid ei

henill trwy gymdeithas â Christ, "Camp am alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu." Mae'r rhai na enillant yn marw, yn peidio bod. Os felly, ofer gofyn, A fyrhawyd braich yr Arglwydd? Cyfyngir felly ar allu Duw, ar Ymddadblygiad, ar effaith Goleu newydd ar y meddwl, ar bosibiliadau'r natur foesol a'r ewyllys y mae Duw wedi ein donio a hwynt. Cred Mr. Palmer mewn Anfarwoldeb, ond fod yr ysbryd sydd heb ei adgenhedlu yn darfod ac yn diflanu. Mae cwrs y byd wedi bod erioed yn un o gynydd a gwelliant nes dyfod at ddyn. Rhyfedd os ydyw i aros yn y fan yna—fod Ymddadblygiad i derfynu gyda marwolaeth, fod dyn ar ol cychwyn ar waith anrhydeddus, a pharhau gydag ef am hir amser i golli'r cwbl oherwydd methu ei orphen. Bywyd dyn yw yr unig beth anorphenedig ar y ddaear—ac onid yw'r casgliad yn deg fod yn hyny ragbrawf a phroffwydoliaeth o barhad. Gwrandewch ar Tennyson yn nghyfieithad Marles :—

O'm hyder yw mai rhywfodd da
  Fydd diwedd pob daearol foes,
  Pob poen a phob ewyllys groes
Amheuaeth a phob dynol bla ;

Yn ddall na rodia dim ei daith,
  Na chollir dim un bywyd byth,
  Na theflir dim i ddamniol nyth,
Pan ddygo Duw i ben ei waith.

O, dim a wyddom am ei ffyrdd,
  Ond credu wnaf mai da a fydd
  Ryw ddydd yn mhell—i bawb, ryw ddydd
Y try pob gaua'n wanwyn gwyrdd.

Felly fy nghred ; ond beth wyf fi?
  Baban yn crio yn y nos,
  Yn crio am y wawrddydd dlos,
Heb un iaith genyf—onid cri.

LLYFRGELL Y PREGETHWR.

Ebe cyfaill wrthyf yn ddiweddar, "Mi fum ar neges y dydd o'r blaen yn nhŷ y Parchedig ————," gan enwi gweinidog o gryn fri yn y gymydogaeth. Dywedwyd wrthyf ei fod yn ei *study*. Hebryngwyd fi i fewn ato. Wedi gorphen fy neges, cefais genad ganddo i fwrw golwg dros ei lyfrau. Yr wyf yn hoff o ddarllen fy hunan, ac yn prynu ambell i lyfr newydd o bryd i bryd. Yr oeddwn felly yn falch i fwrw golwg dros y naill silff ar ol y llall, gan ddisgwyl gweled rhywbeth fyddai yn apelio ataf, ac yn gymhellydd i brynu ; ond ni fu'r olygfa i gyd ond syndod mawr a siomedigaeth. Wedi imi orphen, dyna'r gweinidog yn gofyn—"Be feddyliwch am dani?" "Wel," meddwn inau, "yr wyf wedi fy synu." "Paham hyny?" "Nid oes yna'r un llyfr nad yw e dros ugain mlwydd oed."—"A beth am hyny?"—"Ie, beth am hyny yn wir? Sut ar y ddaear y dysgwyliwch allu helpu pobl ieuainc, gyda'u amheuon a'u hanawsderau oni fydd eich darllen *up-to-date*?" Mi enwais rhyw ddwsin o lyfrau a dybiwn i ddylasent fod ganddo, a'r ateb gefais, dipyn yn swrth hefyd, "Ni ddarllenaswn i ddim o honynt pe cawswn hwy am ddim!"

Mae'r stori wedi agor y drws i lawer o adgofion. Rwy'n cofio dychwelyd adref un tro o Lanbedr. Nid yw waeth pa un ai i'r dwyrain neu'r gorllewin, deheu neu'r gogledd

oeddwn i'n myned—digon yw dywedyd fy mod ar fy ffordd adref. Yr oedd wedi bod yn

"DEGREE DAY"

yn y coleg, a digwyddodd i'm rhan i syrthio i adran o gerbydres oedd yn llawn o offeiriaid—naw yn erbyn un, ac oll, fel finau, yn debyg genyf, ar eu ffordd adref. Meddyliais, dan yr amgylchiadau, mai tafod tewi oedd y tafod gore imi. Amrywient o ran oedran, a gellid disgwyl o ran profiad hefyd. Gallwn feddwl wrth yr olwg fod un neu ddau o honynt yn britho i ogoniant. Cychwynodd y trên, ac fe gychwynodd y siarad, ac fel oedd yn naturiol i ddosparth o'r fath, pwnc y siarad oedd llyfrau. Yr oeddwn inau yn gwrandaw yn brysur iawn, ac yn teimlo dyddordeb. Nid oedd dim llai i ddysgwyl na fuasai'r llyfrau yn wahanol i'r llyfrau fyddwn i wedi arfer teimlo dyddordeb ynddynt. Gore i gyd hyny. Enwyd amryw lyfrau gan y naill neu'r llall; ond y peth a'm synodd i a syndod hwnt i'r cyffredin oedd—y sylwadau a wnaed. Cofier, offeiriaid oeddynt, boneddigion o oedran addfed, wedi cael addysg golegawl, yn perthyn i'r dosparth y soniai'r diweddar Anrhydeddus William Ewart Gladstone am danynt fel y dosparth o *gentlemen* oedd yn bresenol yn mhob plwyf, dynion ag amser ganddynt i ddarllen y dysgwylid hwy i ddarllen, dynion y gellid disgwyl na fyddai ofn arnynt i brofi pob peth a dal yr hyn sydd dda. Ond y sylw am bob llyfr enwyd oedd, nid *is it good, is it true, is it edifying, is it instructive?* Dim o'r fath beth, ond *is it safe!* Teimlent y byddai perygl i'w ddarllen os na fyddai yn *safe.* Y pwnc mawr, y pwnc mwyaf oedd—*is it safe?* Beth pe gwnelai'r darlleniad o honynt eu dwyn i wrthdarawiad a'r Llyfr Gweddi Gyffredin? Byddai siglo eu ffydd yn y Gyffes a'r Gredo yn eu dwyn i gyflwr adfydus y bobl hyny gynt, y rhai, pan aeth gobaith eu helw i golli, a waeddasant am ddwy awr, "mawr yw D——." Mae cryn dipyn o gowardiaeth y tu cefn i ysbryd o'r fath. Onid yw gwir yr hen ddiareb—*magna est veritas, et praevalebit.* Mawr yw gwirionedd ac efe a lwydda. Eisieu mwy o ffyddlondeb i'r gwirionedd sydd arnom, ac eled y Gyffes a'r Gredo lle'r elont os na allant sefyll wyneb yn wyneb a'r gwirionedd. Eiddo Duw yw pob gwirionedd, ac yn y pen draw efe a saif. Yn wir, pe gwyddent, nid yw yn *safe*, nid yw yn *ddiogel* iddynt ddarllen y Beibl chwaith; y mae rhanau o'r Beibl na ellir eu cysoni a'r Llyfr Gweddi Gyffredin.

Mewn rhifyn diweddar o'r "*Christian World*" ymddangosodd erthygl ddyddorol iawn ar "*Some Preachers' Libraries.*" Dechreua fel hyn: "Yn debyg i ranau eraill o gyfansoddiad dyn, y mae'r meddwl yn byw ac yn tyfu ar yr hyn yr ymbortha arno. Ceir natur y bwyd i ryw fesur yn penderfynu nodwedd a nerth y dyn. Mae'r llyfrgell yn ffynonell o'r hon y ceir cyflenwad o fwyd meddyliol, ac nid yw yn anhawdd i ddeall ansawdd a thuedd feddyliol y dyn, pan unwaith y deuir i wybod natur y llenyddiaeth a'r hon y mae ei feddwl wedi ei borthi.

Rhydd yr awdwr ddesgrifiad o ryw haner dwsin o lyfrgelloedd y mae wedi ymweled â hwy—llyfrgelloedd rhai wedi bod 25, 30, 33, &c., o flynyddoedd yn y weinidogaeth; a gallwn feddwl mai po hynaf y gweinidog mwyaf diffrwyth ei lyfrgell. Synir ef gan dlodi cymharol y rhan fwyaf o honynt. Gwna'r ymddiheurad dros rai oherwydd cyfyngder eu hamgylchiadau, ond ofna mai nid dyna yn gwbl gyfrifa am dlodi y llyfrgell. Ystyria fod llyfrau pregethau yn ffugro gormod gan rai, a rhy fach o lyfrau fydd yn cynyrchu meddylgarwch ac yn helaethu terfynau gwybodaeth ac yn arwain i waith gwreiddiol. Anfynych y gwelai lyfrau ar Wyddor, ar Wyddoniaeth Moesol neu Feddyliol, ar Feirniadaeth Feiblaidd, ar Ymddadblygiad neu Comparative Religion, &c. Nid oeddynt erioed wedi taflu'r drws yn agored i Huxley a Tyndall; Driver a Cheyne;

Fairbairn a Forsyth; Harnack a Wendt, &c., &c. Gyda'r rhan fwyaf, yr amcan mawr, gellid meddwl, oedd cael gafael yn y *Royal Road*, y ffordd rwyddaf a rhataf at bregethau parod. Ar bwy mae'r bai mwyaf am hyn? Dywed hen ddiareb — Like priest, like people. Gellid meddwl ei bod yn ddyledswydd ar y pregethwr i oleuo ei bobl. O'r tu arall nid yw'r bobl am eu goleuo. Eisieu'r bobl yw, nid gwybodaeth, ond goglais clust, swn melus, &c. Where ignorance is bliss, 'tis folly to be wise. A chawn y pregethwr yn cytuno âg arwyddair y Pabydd—Anwybodaeth yw mam duwioldeb. Cofiaf fy hunan fyned i lyfrgell cymydog unwaith. Yr oedd yno tua mil o lyfrau—o olwg dda, llyfrau o deip cyfres T. & T. Clark. Wedi i mi ganmol, tynodd y cyfaill allwedd o'i boced, ac agorodd gwpwrdd dirgel, a dangosodd i mi'r *up-to-dates!* Dyna lle'r oedd Caird, Martineau, &c., &c., ac eb efe, Nid yw'r diaconiaid yn cael gweled y rhai hyn!

Nid yw'r Cymry heddyw, o ran parch i wirionedd ac i wybodaeth ddim mymryn nes yn mlaen na Mohametaniaid Alexandria ganrifoedd yn ol. Yn Alexandria'r pryd hwnw'r oedd llyfrgell helaethaf a gwerthfawrocaf y byd, llyfrgell sefydlwyd gan Demetrius Phalereus. Defnyddiwyd cynwys hon am chwe mis fel moddion tân i gynesu'r pedair mil baddonau oedd yn y ddinas; ac meddai'r Caliph Omar wrth roi rheswm neu apology dros ei llosgi, "Os oeddynt yn cytuno â'r Coran, llyfr Mohamet, nid oedd eu heisieu; os yn groes i'r Coran yr oedd yn well eu llosgi rhag iddynt fod yn berygl einioes i'r rhai a'u darllenant!!"

Onid felly y mae cynulleidfaoedd Cymru a'u gweinidogion yn ymresymu heddyw? Y gwir yw—y mae Rhodd Mam a Geiriadur Charles a llyfrau tebyg yn gyfryw ag a fydd yn *up-to-date* yn ngolwg y rhai hyn hyd ddiwedd amser!!

Q.Q.

MARWGOFION.

HYDREF 18, yn 72 mlwydd oed, Henry Owen, Tycam, Llanfihangel-Ystrad. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. E. Davies, Ficer Eglwys Ystrad. Claddwyd yn mynwent Eglwys Ystrad, a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y Ficer. Gadawodd dair merch, tri mab, ac wyrion mewn galar ar ei ol.

HYDREF 31, yn 77 mlwydd oed, Mrs. Margaret Edwards, Coedeiddig, Pencarreg, (gynt Cwmcanol). Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Trafle, ger Cwrtnewydd. Ymunodd mewn priodas a John Edwards, Gwaenrhydychain, o'r plwyf uchod, a threuliwyd ganddi y rhan fwyaf o'i hoes mewn gwahanol fanau o fewn terfynau plwyf Pencarreg. Bu'n briod ffyddlon ac yn fam dyner, ymdrechgar a darbodus neillduol. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi, a chladdwyd ei gweddillion yn ymyl muriau y eapel. Gadawodd mewn galar ar ei hol ddeg o blant, a dau eraill wedi ei blaenu draw, heblaw perthynasau eraill a chyfeillion lawer. Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan y Parch. R. C. Jones.

TACHWEDD 4, Evan Davies, Pontfaen, ger Llanbedr, yn 73 mlwydd oed. Cariodd yr ymadawedig gorff

gwan ar hyd y blynyddau, ond yr oedd hoewder ei yspryd rywfodd yn gallu trechu eiddilwch ei gorff, nes gallu ohono nid yn unig fyw i wel'd yr oedran teg uchod, ond hefyd i fwynhau bywyd fel rhodd werthfawr oddiwrth Dduw er gwaethaf afiechyd a llesgedd. Gadawodd mewn galar ar ei ol weddw, a merch, a brodyr a chwiorydd, a pherthynasau eraill. Claddwyd ei weddillion yn mynwent y Llan. Ar gyfrif afiechyd ei weinidog, gwasanaethwyd yn y ty gan Mr. Jones, Eryl, Llanbedr, ac wrth y drws gan y Parch. R. C. Jones, ac yn y Llan gan yr offeiriad.

TACHWEDD 4, yn 10 wythnos oed, Daniel, baban bychan Thomas a Margaret Jones, Ffynonwen. Claddwyd y dydd Llun dilynol yn Pantdefaid ; y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins. Cofied y rhieni yn eu galar eiriau tyner Iesu, "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi."

TACHWEDD y 5ed, yn bedwardiwrnod-ar-ddeg oed, Thomas, anwyl faban David a Rachel Williams, Nantglas, Llanybyther. Hefyd, ar y 17eg o'r un mis, Elizabeth, ei chwaer, yn chwech-diwrnod-ar-hugain oed. Claddwyd y ddau yn Nghapelybryn, a gwasanaethwyd yn y tŷ, ar y ddau amgylchiad, gan y Parch. D. James, Rhydybont ; ac yn y fynwent gan weinidog Capelybryn. "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

TACHWEDD 5, bu farw Mary, anwyl briod John Morgan, Abernant y Groesisaf, Cwmbach, Aberdar, yn 75 oed. Gedy ar ei hol briod oedranus a rhyw ddeuddeg o blant yn fyw, a lluaws o ŵyrion. Profodd Mrs. Morgan drwy ei hoes yn fenyw rhagorol iawn yn mhob cysylltiad, yn briod ffyddlawn a hawddgar, yn fam dyner a darbodus, yn gymydog serchog a chariadus, mewn parch gyda phawb a'i hadwaenai. Yr oedd hi a'i phriod o nifer y rhai a gychwynasant yr achos Undodaidd yn Cwmbach, a buont yn golofnau gwerthfawr i'w ategu drwy'r blynyddoedd. Daearwyd gweddillion ein hanwyl chwaer dydd Mercher, yn y Gladdfa Gyhoeddus, a gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Glynne Davies, gweinidog newydd yr Hen Dy Cwrdd ; Melchisedec Evans a R. J. J. Nos Sul, cynaliwyd cyfarfod angladdol, R. J. J. yn gwasanaethu.

"Mor felus meddwl eto 'nghyd
Cawn orphwys yn y nef."

TACHWEDD 8, Thomas Thomas, Brynmawr, Pencarreg, yn 83 mlwydd oed. Gwelwn ar gyfrif ei oedran fod Thomas Thomas yn un o hen gymeriadau syml y dyddiau gynt, ac fel y cyfryw mai bod o wasanaeth oedd hyfrydwch mawr ei fywyd. Nid yn unig gweithiai yn galed a didwyll hwyr a bore pan gartref ar ei dyddyn, ei hun ond gweithiai hefyd yn galed a didwyll pan ar dyddyn ei gymydog. Gwasanaethu ac nid cael ei wasanaethu oedd nod teilwng ei fywyd, er fod henaint wedi ei orddiwes er ys blynyddau bellach a'i orfodi i daflu ei arfau i lawr, ac yr oedd bob amser yn hawdd ei drin. Yr oedd yn aelod o eglwys Caeronen, a chladdwyd ei weddillion yn mynwent y capel hwnw. Gadawodd bump o blant mewn galar ar ei ol, a pherthynasau eraill lawer. Gwasanaethwyd yn y tŷ ar ddydd ei angladd gan y Parch. R. C. Jones, ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. John Davies.

TACHWEDD 8, yn 88 mlwydd oed, yn nhŷ ei mab, y Prifathraw Walter J. Evans, M.A., Coleg Henadurol Caerfyrddin, Mrs. Rachel Evans, gweddw y diweddar Barch. Titus Evans, Caerfyrddin. Heblaw ei mab, gadawodd hefyd ddwy ferch mewn galar o'i cholli, priod y Proffeswr Philemon Moore, B.A., a phriod Mr. W. B. Barton, Preston. Yr oedd holl weinidogion Undodaidd Cymru, y rhai aethent drwy Goleg Caerfyrddin, o'r henaf hyd yr ieuengaf, yn ei hadwaen yn dda, a theimlant yn ei marwolaeth fod un gadwen a'r gorphenol wedi ei thori. Yr oedd yn ferch i weinidog Undodaidd, uchel ei barch yn ei ddydd, y Parch. John Jeremy, Caeronen ; a brodyr iddi hi ydoedd W. D. Jeremy, M.A., Barrister-at-Law, Llundain,

a'r Parch. D. D. Jeremy, Dublin. Yr oedd yn wraig nodedig ar gyfrif amryw o ystyriaethau. Bu farw ei phriod pan nad oedd ei phlant ond ieuainc iawn, ac nid yn unig dygodd rhain i fyny, a rhoddodd iddynt yr addysg goreu posibl, ond hefyd llanwodd y lle o fam i dri o blant amddifaid ei chwaer, y rhai ydynt erbyn hyn yn llanw cylchoedd pwysig ac anrhydeddus yn y byd. Claddwyd hi yn ymyl ei phriod yn Cemetery, Caerfyrddin.

TACHWEDD 12, wedi pum wythnos o gystudd caled iawn, yn 25 oed, David Thomas Jones, Blaenpant, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Eglwys y Plwyf, yn nghanol arwyddion amlwg o alar cyffredinol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan yr offeiriaid. Yr oedd yr angladd yn llawer mwy na'r cyffredin. Treuliasai ein cyfaill ieuanc oes ddefnyddiol a dilychwin. Ymunodd yn fore ag eglwys Iesu Grist yn Nghapelybryn, a bu yn deilwng o'i broffes. Yr oedd ei dad wedi ei ragflaenu er's mwy nag ugain mlynedd, ond gadawodd ei fam, un brawd a chwech o chwiorydd, a chyfeillion lawer i alaru'n ddwys ar ei ol.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae yn bryd dechreu parotoi ar gyfer yr arholiad blynyddol. Mae plant Safon I yn cael eu rhanu eleni i ddau ddosparth, sef y rhai sydd yn dechreu am y tro cyntaf gyda'r Gwersi eleni, a'r rhai oedd yn Safon I y flwyddyn ddiweddaf. Y wers gyntat yn yr Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist gan y Parch. D. Evans, Cribyn, sydd i'r plant sydd yn dechreu am y tro cyntaf eleni, a'r wers gyntaf yn nghyd a'r ail sydd i'r plant ereill yn Safon I, oedd wedi bod yn yr un Safon llynedd. Y wers i Safon II. ydyw yr un olaf yn y llyfr, tud. 24—30.

GLANRHONDDA.—Nos Iau, yr 17eg cynfisol cynaliwyd cyfarfod yn y lle uchod er dathlu achlysur priodas y Parch. E. R. a Mrs. Dennis yr hon gymerodd le ychydig amser yn ol. Anrhegwyd yr olaf â nifer o nwyddau arian at wasanaeth y ty a'r cyntaf â llyfrau yn cynwys cyfrolau gwerthfawr o waith William James, Edward Caird, George Adam Smith, a Henry Jones. Cymerwyd y gadair gan y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., yr hwn ddywedodd fod yr amgylchiad yn hapus ac yn enwedig felly am ein bod yn croesawu Mrs. Dennis nid yn unig i'r lle ond hefyd i'r enwad. Gobeithio bydd ei phrofiad yn ein plith yn fuddiol a phleseraidd. Bydd yn gaffaeliad mawr i'r capel pe yn unig yn rhinwedd ei hysbryd serchog a gobeithiol. Siaradwyd ychydig o eiriau pwrpasol yn mhellach ar ran y gynulleidfa gan ein cyfaill gwasanaethgar Mr. W. Josiah Llewelyn. Dywedai mai peth dymunol yn nglyn a'r amgylchiad oedd mai nid rhodd o ffarwel oedd genym ond rhodd o groesaw. Dymunai i Mr. a Mrs. Dennis amser maith a hyfryd a llawen yn ein plith er llwyddiant a hyrwyddiad yr achos da sydd genym mewn llaw. Cyflwynwyd yr anrheg gan Mrs. Joana Thomas (mam Mr. George Thomas, A.C.) yr aelod henaf yn y capel. Aeth drwy ei gwaith yn rhagorol a rhoddodd ychydig gynghorion i'r ddau ddyn ieuanc mewn iaith dlws a llawn o

gydymdeimlad. Dywedodd Mr. Dennis wrth gydnabod y rhodd ei bod yn anrhydedd ynddo ei hun i dderbyn unrhyw beth oddiar ddwylaw mor garedig ag eiddo Mrs. Thomas. Teimlai yn ddiolchgar i'r gynulleidfa hefyd nid yn gymaint am yr anrheg ei hun ond am dani fel arwydd o'u parch a'u hewyllys da tuag ato ef a Mrs. Dennis. Ar ol hyn darllenwyd nifer o benillion prydferth a tharawiadol iawn gan y bardd o Ddyffryn Cerdin—Mr. Ben Davies, y rhai a welir isod. Cymerwyd rhan yn y cyfarfod yn mhellach gan y cyfeilydd—Mr. Gwilym Jones, y cantoresau—Misses Jones a Jenkins, a'r adroddwr—Mr. Richards—yr oll o honynt o'r tu allan i'r gynulleidfa. Da oedd genym hefyd weled tad Mr. Dennis yn bresenol ac yn mwynhau ei hun cystal. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gwresog i bawb gymerent ran gan Mr. George Thomas ac eiliwyd gan Mr. Lewis Jones, a phasiwyd yn unfrydol. Felly dygwyd cyfarfod llwyddianus i derfyn dymunol.—J. PARK DAVIES.

ANRHEGU'R PARCH. A MRS. E. R. DENNIS, TACHWEDD 17, 1910.

Pwy sy'n haeddu gwir anrhydedd?
Hawdd yw ateb hyn;
'R hwn a dry ei oes yn sylwedd
Pur o rinwedd gwyn;
'R hwn a rodia ffyrdd dyngarwch,
A daioni'n nod;
'R hwn sy'n gwenu ser hyfrydwch,
Nes teryllu nef Brawdgarwch,—
Hwna haedda glod!

Pwy a ŵyr faint o ddaioni
Wna caredig air?
Gwên gariadus sydd fel tlysni
Meillion yn y gwair;
Rhoi elusen gyda chilwg
Sy'n bradychu'r fron—
Daw y galon oll i'r amlwg
Gyda'r angel ddaw i'r golwg
Yn y llygad llon.

Capel bach Glanrhondda heno
Ddwg dystiolaeth glir
O weithgarwch pur, diflino
Denis dros y gwir;
Dyw'r anrhegion syml welir
Yma ger ein bron,
Namyn cragen fechan dreiglir
O eigionau môr i sychdir
Gyda blaen y dòn.

Pwy a draetha allu llyfrau?
Pwy a ddwed eu gwerth?
Dyma fyddin gryfa'r oesau,—
Pwy wrthsafa'u nerth?
Cyfundrefnau o feddyliau
Fu fel ser y nen
Yn ffurfafen ddu yr oesau
Yn ymloewi'n ddiluw heuliau
Addysg Cymru wen!

Rhaid i egwyddoriyn cariad
Fyw ac enill tir,
Rhaid i'r Eglwys ateb galwad
Gwerin cyn bo hir;
Rhaid i ffurfiau fyn'd o'r neilldu
A rhoi'u harfau 'lawr;
Mae y meusydd oll yn gwynu
I'r cynhauaf, rhaid dadebru,
Canys torodd gwawr!

Plentyn hynaf byd gwareiddiad
Yw celfyddyd gain—
Llef celfyddyd ydoedd cenad
Morthwyl Tubal Cain;
D'wed y cutlery'n ddibetrus
Fod yn rhaid cael bwyd;
Calon rwydd a dwylaw medrus
Fel y ceir gan Mrs. Dennis
Loewa'r gwyneb llwyd.

Bellach rhaid dymunoch llwyddiant
Yn eich newydd nyth;
Gwŷr Glanrhondda gyd-ddywedant
"Safwch yma byth";
Eich bywydau fo'n goleuo
'R ffordd i "loewach nen";
Fel bo'r Eglwys yn dihuno
I alwadau'r oes sy'n deffro,
Ac yn codi'i phen!

Gwr yw'n Dennis gâr ein dynion,—a'i [wraig
Rwydd a thyner-galon;
Hir einioes fo i'r rhai union,
A gwin a llaeth a gwenau llon.

Rhondda. BEN DAVIES
Bardd Dyffryn Cerdin.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

Economy and Refinement applied to everything for the Furnishing and equipment of the Home.

Catalogue, Estimates or Special Designs, Free of Charge.

INTERIOR DECORATING

a Speciality.

Ben. Evans & Co.

SWANSEA. LTD.